NADOLIG LLAWEN
MERRY CHRISTMAS



gan staff Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
from the staff of Cytûn: Churches Together in Wales

Aled Geraint Rhian
Sally Sasha Myr

Neges Nadolig Cytûn 2013

1, 2; Cloi yr Ymgyrch "OS" yng Nghasnewydd ym mis Hydref. 3; Cynhyrchiad llwyfan yng Nghynhadledd Egwysi'r Byd yn Busan, De Korea
1, 2; Closing the "IF" Campaign in Newport, October. 3; Presentation at the WCC Conference in Busan, South Korea

Gallwch fod yn sicr o weddïau parhaus Cytûn drosoch wrth i'r gymuned Gristnogol ledled Cymru nodi dyheadau diwinyddol tymor yr Adfent a phrif ddathliad y Nadolig. Yn addas iawn i offeryn ecwmenaidd cenedlaethol Cymru, mae ein gweddi'n adlewyrchu uwch weddi offeiriadol Crist: y byddwn ni yn un fel bod y byd yn credu.

Adeg o Ddiolchgarwch

Gyda syniad o werthfawrogiad yr aeth tîm staff Cytûn ati'n ddiweddar i adolygu cyflawniadau'r sefydliad yn ystod 2013, gan nodi bod y mwyafrif o'r dyheadau yr oedd y sefydliad wedi eu gosod iddo'i hun wedi eu cyflawni. Yn yr adroddiad am y diweddaraf yn Cytûn, *Edrych Ymlaen*, a gyhoeddwyd yn ystod yr haf, nodwyd nifer o gyraeddiadau cyffredinol allweddol: darparu mwy atebolrwydd i'r eglwysi, profi twf yn yr aelodaeth a mwy o ymwneud â phartneriaid fel y Cynghrair Efengylaidd, darparu'r llwyfan ar gyfer tystiolaeth yr eglwysi mewn digwyddiadau cenedlaethol ac yn ystod gwasanaethau proffil uchel fel Gwasanaeth Diwrnod Coffa Cenedlaethol yr Heddlu a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Penodwyd Ynyr Roberts yn Swyddog Cytûn i lywio llawer o'r gwaith allanol a chyhoeddusrwydd. Yn fynych y tu ôl i'r llwyfan, parhaodd Sasha Perriam i ddarparu cefnogaeth weinyddol ar gyfer pob un o dîm y staff. Gyda phartneriaid ar Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru, parhaodd Cytûn i bwyso'r achos yn llwyddiannus er parhad y cyllido cyhoeddus i barhau gwaith Caplaniaid GIG. Mae herio ffurfiau milwriaethus o secwlariaeth yn cyflwyno rôl ddatblygol ar gyfer Cytûn. Unwaith yn rhagor, cafodd cwrs Cytûn 'Croeso i Gymru' ar gyfer gweinidogion a oedd wedi symud yn ddiweddar i Gymru, dderbyniad da. Hwylusodd Geraint Hopkins y cwrs ac mae'n cymryd rôl arweinydd oddi mewn i dîm Cytûn ar faterion yn ymwneud â pholisïau cyhoeddus.

Ffydd a Threfn

Parhaodd Cytûn i wasanaethu'r eglwysi sy'n aelodau oddi mewn i Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol wrth iddyn nhw barhau i fyfyrio ar argymhellion ymgynghoriad y Cydgynulliad, sy'n adeiladu tuag at 2015. Cymerodd Rhian Linecar at y dasg o fod yn arweinydd staff yn ymwneud â gweinyddiad gwaith y Comisiwn sy'n canolbwyntio ar ddod ag Eglwys yn Uno yng Nghymru i fodolaeth. Mae'r trafodaethau hyn wedi hawlio sylw rhyngwladol.

Yr Eglwys a Chymdeithas

Trwy waith Aled Edwards, y Prif Weithredwr, mae Cytûn wedi parhau i estyn croeso i eglwysi lleiafrif ethnig i'r aelodaeth. Yn y byd cyhoeddus, mae'n parhau i gadeirio Partneriaeth Ymfudo Cymru, ac mae'n chwarae rôl strategol ar Fforwm Hil Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd yn parhau i ddigwydd, mewn partneriaeth yn neilltuol felly â'r Gynghrair Efengylaidd, ar wneud Caerdydd yn ail ddinas noddfa Cymru. Byddai datblygiad o'r fath yn darparu ysgogiad pellach at sefydlu Cymru fel y genedl noddfa gyntaf yn y Deyrnas Gyfunol. Yn fwy diweddar, bu Cytûn yn cydweithio ag eraill ar y Bil Lobïo yn San Steffan, gan geisio sicrhau bod eglwysi a grwpiau ffydd ddim yn cael eu hatal rhag herio pleidiau gwleidyddol yn ystod yr adegau cyn etholiadau cyffredinol yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol. Cafodd y gwaith hwn ei gwblhau gyda phartneriaid oddi mewn i'r sector gwirfoddol neu'r trydydd sector yng Nghymru. Anfonwyd gwahoddiadau at yr eglwysi a'r enwadau sy'n aelodau o Cytûn yn gofyn am enwau unigolion i wasanaethu ar y Comisiwn a fydd yn y pen draw yn cynhyrchu'r papur ymchwil: *Cymru: Cymdeithas Foesol?*. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn hawlio cryn dipyn o sylw, amser ac egni Cytûn yn ystod 2014.

Ffocws Lleol
Trwy gydol 2013, fe geisiodd staff Cytûn, gyda'r adnoddau oedd ar gael, gefnogi ymdrechion lleol a rhanbarthol ledled Cymru. Cyflawnwyd hyn trwy: sawl gweithred o addoli, cyfarfodydd a digwyddiadau arbennig yn canolbwyntio ar weinidogaeth a thystiolaeth leol. Trwy ddoniau Sally Thomas o'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig y galluogwyd llawer o'r gwaith lleol hwn ar ran Cytûn.

Degfed Cynulliad Cyngor Eglwysi'r Byd, Busan, De Korea
Trwy gymorth Cytûn, mynychodd nifer o gynadleddwyr o Gymru Ddegfed Cynulliad Cyngor Eglwysi'r Byd yn Busan, De Korea. Roedd thema'r Cynulliad yn canolbwyntio ar heddwch a chyfiawnder. Mae Cytûn yn llongyfarch Sarah Rogers o'r Eglwys yng Nghymru ar gael ei hail-ethol ar Bwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd. Cyhoeddir myfyrdodau pellach o safbwynt Cymreig yn y flwyddyn newydd ar brofiad a oedd, i lawer, yn wefreiddiol iawn, yn ddyrchafol, ac yn heriol. Clywyd lleisiau gan rai yn llefaru o leoedd mwyaf anodd y byd o ran y gymuned Gristnogol fyd-eang. Trwy weddi, addoliad, astudiaeth Feiblaidd a thrafodaethau sesiwn lawn, clywyd materion anodd ar gyfer Cyngor Eglwysi'r Byd, a'u trafod ambell waith. Rhoddwyd llwyfan i Gristnogion sydd wedi dioddef o effeithiau rhyfel, trais ac anghyfiawnder. Yng Nghymru, fe barhaodd Cytûn i danlinellu'r egwyddor, yn ymwneud â nodi dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, y dylai'r goffadwriaeth y flwyddyn nesaf fod yn bennaf yn addysgiadol a chyda naws coffa. Eisoes, ceisiodd Cytûn sicrhau y bydd y dioddefaint enfawr a'r colli bywyd difesur a gysylltir â'r Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei nodi mewn ffordd sy'n gymesur â phwyslais Cynulliad Cyngor Eglwysi'r Byd ar gyfiawnder a heddwch.

Wrth gloi, mae Cytûn yn arbennig o ystyriol o waith da Cymorth Cristnogol a Cafod fel aelodau o Bwyllgor Trychinebau ac Argyfwng y Deyrnas Gyfunol. Mae pawb ohonom wedi cael ein cyffwrdd gan gyflwr truenus y dioddefwyr ar ôl i Gorwynt Haiyan daro Ynysoedd y Philipinau. Wrth i'r Nadolig nesu, fe fyddan nhw'n parhau yn ein meddyliau, yn ein gweddïau ac yn ganolbwynt ein rhoi. Boed i Dduw ein bendithio i gyd y Nadolig hwn.

Cytûn Christmas Message 2013

Please be assured of Cytûn's continued prayers as the Christian community throughout Wales marks the theological expectations of Advent and the high celebration of Christmas. Appropriately for Wales' national ecumenical instrument, our prayer reflects the high priestly prayer of Christ: that we may be one so that the world may believe.

A Time of Thanksgiving
It is with a sense of gratitude that the Cytûn staff team recently reviewed the organisation's achievements during 2013 and marked that most of the aspirations set for the organisation had been met. In Cytûn's *Looking Ahead* update published in the summer a number of key overall achievements were noted: providing greater accountability to the churches, experiencing growth in membership and engagement with partners such as the Evangelical Alliance, providing the stage for the churches' witness at national events and during high profile services such as the National Police Memorial Day Service held in Saint David's Hall, Cardiff. Ynyr Roberts was appointed Cytûn's officer steering much the organisation's outward facing work and publicity. Frequently, behind the scenes, Sasha Perriam has continued to provide administrative support to all the staff team. With partners on the Welsh Government's Faith Communities Forum, Cytûn has continued to press the case successfully for the continuation of public funding to continue the work of NHS Chaplains. Challenging militant forms of secularism presents a developing role for Cytûn. Once again, Cytûn's Welcome to Wales course for ministers recently moved into Wales was well received. Geraint Hopkins facilitated the course and takes a staff lead within the Cytûn team on public policy issues.

Faith and Order
Cytûn has continued to serve its member churches within the Commission of the

Covenanted Churches as they continue to reflect on the recommendations of The Gathering consultation building towards 2015. Rhian Linecar has taken a staff lead on administering the Commission's work focused on bringing a Uniting Church in Wales into being. These conversations have demanded international attention.

Church and Society

Through Aled Edwards, Chief Executive, Cytûn has continued to welcome ethnic minority churches into membership. In the public arena, he continues to chair the Wales Migration Partnership and plays a strategic role on the Welsh Government's Race Forum. Progress, in partnership particularly with the Evangelical Alliance, continues to be made on making Cardiff Wales' second city of sanctuary. Such a development would provide a further impetus towards establishing Wales as the UK's first nation of sanctuary. Cytûn, more recently, worked with others on Westminster's Lobbying Bill, seeking to ensure that churches and faith groups would not be prevented from challenging political parties during the periods prior to UK and Welsh general elections. This work was completed with partners within Wales' voluntary or third sector. Invitations have been sent out to Cytûn's member churches and denominations asking for individuals to serve on the Commission that will eventually produce the research paper *Wales: a Moral Society?*. It's anticipated that this work will demand a great deal of Cytûn's time and energy during 2014.

Local Focus

Throughout 2013, Cytûn staff have sought, resources allowing, to support local and regional ecumenical endeavours throughout Wales. This has been achieved through: many acts of worship, meetings and special events focused on local ministry and witness. Gifted to Cytûn by the United Reformed Church, much of this local work has been enabled by Sally Thomas.

World Council of Churches 10th Assembly, Busan, South Korea

Assisted by Cytûn, a number of delegates from Wales attended the WCC's 10th Assembly in Busan, South Korea. The theme for the Assembly was focused on peace and justice. Cytûn congratulates Sarah Rogers from the Church in Wales on being re-elected on to the WCC's Central Committee. Further reflections from a Welsh perspective will be published in the new year on an experience that was, for many, deeply moving, uplifting and challenging. Voices were heard from some of the world's most difficult places for the world-wide Christian community. Through prayer, worship, bible study and plenary session conversations, difficult subjects for the World Council of Churches were heard and sometimes debated. A platform was given to Christians who have suffered from war, violence and injustice. In Wales, Cytûn has continued to underline the conviction that, concerning the marking of the beginning of the First World War, next year's commemoration should be primarily educational and commemorative. Cytûn has already sought to ensure that the immense suffering and incalculable human loss associated with World War I will be marked in a manner commensurate with the World Council of Churches' Assembly emphasis on justice and peace.

In closing, Cytûn is particularly mindful of the good work of Christian Aid and Cafod as members of the UK Disasters Emergency Committee. All of us have been moved by the plight of the victims of Typhoon Haiyan in the Philippines. As Christmas approaches, they will continue to be on our minds, in our prayers and a focus for our giving. May God bless us all this Christmas.

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru - 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3UR
Cytûn: Churches Together in Wales - 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3UR
+44 (0)29 2046 4204 | post@cytun.org.uk | www.cytun.org.uk

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071